

CYSWLLT Y PRIF WEITHREDWR

Annwyl gydweithwyr,

17/11/2022

Yr wythnos diwethaf cefais fy ngwahodd i siarad yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol Gwasanaeth Gwirfoddol Morgannwg (GVS) a chyfeiriais at bwysigrwydd adeiladu ar y cryfderau sydd gennym fel Bwrdd Iechyd a gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn y Trydydd Sector mewn partneriaeth i gefnogi cymunedau lleol a dinasyddion ar draws Bro Morgannwg.

Mae gweithio ar y cyd gyda mudiadau'r Trydydd Sector a mudiadau gwirfoddol yn gyfle gwerth chweil i ymgysylltu, deall a chodi ymwybyddiaeth leol o'r gwasanaethau a'r datblygiadau arloesol sy'n cael eu cynnal ar draws y gymuned. Roedd y cyfarfod hwn yn gyfle i fyfyrio ar y gwaith a wnaed mewn cydweithrediad â GVS a phartneriaid cymunedol eraill i gefnogi cleifion a gwella canlyniadau iechyd, gofal cymdeithasol a lles

Enghraifft gadarnhaol o'r gwaith partneriaeth hwn yw adnewyddu CF61 a Thŷ Illtud. Mae'r Bwrdd Iechyd, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (RPB) a'r GVS wedi cydweithio i drawsnewid CF61 yn ofod sydd ag ystod eang o wasanaethau cymorth ar gyfer y gymuned, gan gynnwys cyfleoedd rhannu bwyd, banc dillad a lleoliad i gynnal gweithgareddau. Mae Tŷ Illtud bellach yn ganolfan ar gyfer GVS a gellir ei logi fel man gwaith i gefnogi mentrau cynhyrchu incwm gwerthfawr i'r Trydydd Sector.

I arddangos yr ymchwil cydweithredol a blaengar gwych sy'n digwydd yng Nghaerdydd mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd, ymunais â Charles (Jan) Janczewski, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, yr Athro Meriel Jenney, Cyfarwyddwr Meddygol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a'r Athro Steve Riley, Deon Meddygaeth a Phennaeth yr Ysgol Feddygaeth ym Mhrifysgol Caerdydd i groesawu'r Gweinidog Iechyd Eluned Morgan AS a'r Athro Arglwydd Kakkar, Cadeirydd Annibynnol King's Health Partners, i adeilad CUBRIC.

Roedd yr ymweliad hwn yn gyfle i ddathlu peth o'r ymchwil ymarferol, o arwyddocâd rhyngwladol ac sy'n canolbwyntio ar y claf, sy'n cael ei wneud ar y cyd gan y ddau sefydliad, gan bwysleisio'r manteision sydd gan yr ymchwil hon i Gymru. Roedd hwn yn gyfle gwych i siarad ar y cyd am yr effaith y mae'r ymchwil yn ei chael a rhannu newyddion mor gadarnhaol am arloesi. Mae Caerdydd yn prysur ddod yn arweinydd yn y maes darparu treialon Cynhyrchion Meddyginiaethol Therapi Uwch (ATMP) mewn clefydau niwrolegol ac mae wedi datblygu arbenigedd unigryw yn y maes pwrpasol hwn o ddylunio treialon clinigol ac arbenigedd niwrolawfeddygol ar gyfer darparu therapi.

Cyfarfu'r mynychwyr â nifer o gydweithwyr, gan gynnwys yr Athro Matt Wise, yr Athro Liam

Gray, Dr Jonathan Underwood, yn ogystal â grŵp o ymchwilwyr o'r brifysgol.

Fel y gwyddoch i gyd, mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN) yn bwriadu mynd ar streic yn ystod yr wythnosau nesaf. Nid oes unrhyw ddyddiadau wedi'u cadarnhau ar hyn o bryd. Mae nifer o Undebau Llafur eraill yn holi aelodau i ganfod a ydynt yn fodlon cymryd rhan mewn streic a bydd y Bwrdd Iechyd yn cael gwybod canlyniad y pleidleisiau hyn maes o law. I gael arweiniad ar weithredu diwydiannol gan gynnwys cwestiynau cyffredin a chanllawiau i reolwyr, gall cydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd fynd i'r dudalen benodol ar streiciau ar SharePoint drwy glicio yma.

Rydym yn parchu hawl cydweithwyr i streicio mewn modd heddychlon a diogel, ac rydym yn cydnabod pam mae llawer ohonoch wedi pleidleisio o blaid streicio yn ystod cyfnod heriol i lawer gyda phwysau gaeaf parhaus yng nghanol argyfwng costau byw.

Fel nyrs yn ôl cefndir fy hun, gallaf werthfawrogi rhai o'r heriau rydych chi'n eu profi a hoffwn ddiolch yn bersonol am eich ymrwymiad parhaus, eich proffesiynoldeb a'ch tosturi er gwaethaf yr heriau niferus a brofir ac sydd o'n blaenau.

Byddaf yn gweithio gyda fy nghydweithwyr Gweithredol a Chyfarwyddwyr y Bwrdd Clinigol, ac yn agos gyda RCN Cymru i leihau'r effaith ar wasanaethau sydd wedi'u cynllunio a heb eu trefnu, a sicrhau ein bod yn gallu parhau i ddarparu gofal brys ac mewn argyfwng yn ddiogel drwy gydol unrhyw weithredu diwydiannol sydd wedi'i drefnu.

Parhewch i ofalu am eich gilydd, byddwch yn gydweithwyr da ac yn aelodau da o'r tîm, byddwch yn garedig i chi'ch hun, i'ch gilydd ac wrth gwrs i'ch cleifion a'u hanwyliaid. Rwy'n gwybod bod heriau'n codi felly os oes gennych unrhyw bryderon neu faterion diogelwch, byddem yn eich annog i'w codi gyda'ch rheolwr llinell neu fel arall ddefnyddio'r fenter Rhyddid i Leisio Barn. Gobeithio eich bod chi'n teimlo y gallwch chi wneud hynny heb ofni'r canlyniadau, ond os nad yw hynny'n wir, yna mae gennych hyd yn oed fwy o reswm i ddefnyddio cyfleoedd fel Rhyddid i Leisio Barn. Lleisio barn mewn gwirionedd yw'r cam cyntaf i gael cymorth a datrys problemau, ac er mwyn cael gafael ar gymorth, yn gyntaf mae'n rhaid i ni wybod bod yna angen.

Yn olaf, hoffwn orffen drwy roi diolch enfawr i chi i gyd, ble bynnag yr ydych yn gweithio ar draws y Bwrdd Iechyd am eich ymdrechion anhygoel. Gyda'n cynlluniau ar gyfer y gaeaf wedi hen ddechrau i liniaru effeithiau amlwg yr adeg hon o'r flwyddyn, rwy'n hyderus, trwy weithio gyda'n gilydd a wynebu popeth a wnawn gyda thosturi, y byddwn yn llwyddo i ddelio â'r misoedd nesaf yn ddiogel.

Dymuniadau gorau,

Suzanne

Cefnogi myfyrwyr a chynaliadwyedd meddygon teulu

Mae Bwrdd Clinigol PCIC wedi bod yn cefnogi myfyrwyr prifysgol newydd a'r rhai sy'n dychwelyd yng Nghaerdydd i gael mynediad at ofal iechyd yn y ffordd fwyaf priodol pan fyddant yn y ddinas.

Wedi'i sbarduno gan ymrwymiad i sicrhau bod myfyrwyr yn meddu ar y wybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael iddynt wrth gael mynediad at ofal, mae'r Bwrdd Clinigol wedi bod yn gweithio'n agos gyda phob un o'r pedair prifysgol i ddarparu cyngor, arweiniad

a gwybodaeth am y gwasanaethau Gofal Sylfaenol sydd ar gael yn y gymuned.



Gan gychwyn ar ymgyrch blwyddyn o hyd i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau o fewn Gofal Sylfaenol ac annog myfyrwyr i gael mynediad atynt yn fwy priodol, mae'r Bwrdd Clinigol wedi darparu gwybodaeth i brifysgolion i'w rhannu'n uniongyrchol â'u myfyrwyr, wedi mynychu digwyddiadau'r Glasfyfyrwyr i'w cyfeirio at wasanaethau a'u hannog i gofrestru gyda meddygon teulu, ac wedi hysbysebu mewn Undebau Myfyrwyr i annog myfyrwyr i 'Roi eich iechyd yn Gyntaf... '. Siaradodd y tîm â dros 1600 o fyfyrwyr yn ystod Wythnos y Glas, ac ymwelodd 650 ohonynt â gwefannau practisau trwy godau QR a luniwyd yn benodol ar gyfer y digwyddiadau.

Dros yr ychydig fisoedd nesaf, bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i gynhyrchu cynnwys sy'n helpu i gyfeirio myfyrwyr at wasanaethau y gallai fod eu hangen arnynt, gan ofyn am gymorth gan gydweithwyr Gofal Sylfaenol i gymryd rhan mewn gweithgarwch ymgyrchu.

Y Bwrdd Iechyd yn nodi Wythnos Diogelwch Meddyginiaethau a Diwrnod Diogelwch Cleifion y Byd

Yr wythnos diwethaf, cynhaliwyd dathliad ar y cyd ar gyfer Wythnos Diogelwch Meddyginiaethau a Diwrnod Diogelwch Cleifion y Byd.

Drwy gydol yr wythnos, canolbwyntiodd ein cydweithwyr Diogelwch Cleifion a fferylliaeth ar bum thema wahanol - grymuso unigolion, gwneud meddyginiaethau'n fwy diogel, pontio mewn gofal, cwympiadau a rôl y fferyllydd.



Ddydd Llun, siaradodd cydweithwyr o YCC Cymru â staff a chleifion yn Ysbyty Athrofaol Cymru ynghylch diogelwch meddyginiaethau a phwysigrwydd adrodd am sgil-effeithiau. Gwnaeth cleifion a oedd yn cael meddyginiaeth o'n fferyllfa dderbyn taflenni hefyd yn amlygu pwysigrwydd deall sut y dylid cymryd eu meddyginiaeth a sut i ofyn cwestiynau os ydynt yn ansicr.

I ddod â'r wythnos i ben ddydd Gwener, gwisgodd cydweithwyr fferylliaeth grysau-t Diwrnod Diogelwch Cleifion i hyrwyddo slogan Sefydliad Iechyd y Byd, Know, Check, Ask. Cafodd y llyn yn Ysbyty Athrofaol Cymru ei oleuo mewn oren hefyd.

Enwebu ar gyfer Portread



Ar 5 Gorffennaf 2023 mae'r GIG yn dathlu 75 mlynedd o wasanaeth. Ein staff gweithgar sydd wrth wraidd y GIG, felly i ddathlu'r garreg filltir hon bydd yr artist enwog Harry Holland yn gweithio mewn partneriaeth â Rhaglen y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles, Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro i beintio portread o un aelod o staff #TîmCAF.

Y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw llenwi'r arolwg hwn, gan nodi pam y dylid dewis eich enwebai.

Adroddiad Gwerthuso Rhaglen Cydlynydd y Celfyddydau ac Iechyd

Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro, rydym yn falch iawn ag adroddiad gwerthuso rhaglen Cydlynydd y Celfyddydau ac Iechyd, mae'n dangos yn glir yr effaith sylweddol y mae Rhaglen y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles yn ei chael ar gleifion, staff, gwirfoddolwyr a'r boblogaeth ehangach.

Rhagor o wybodaeth am Adroddiad Gwerthuso Rhaglen Cydlynydd y Celfyddydau ac Iechyd.

